Ysgol Gymraeg Croes Atti

Addysg Gynradd Gymraeg Sir y Fflint

Prospectws Ysgol

Pennaeth Ysgol
Gwyn Jones

Ffordd Gaer
Fflint
Sir Fflint
CH6 5DU
01352 733335
postcroesatti@hwbmail.net

Stryd Plymouth
Shotton
Sir Fflint
CH5 1JD
01244 812806
postcroesatti@hwbmail.net

Croeso i'r ysgol

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i rannu hefo chi ein llawlyfr diweddaraf ar gyfer Ysgol Croes Atti, a'm gobaith yw y bydd eich perthynas a'r Ysgol, drwy eich plant, yn brofiad hapus a gwerthfawr. Yn y llawlyfr cewch wybodaeth am Ysgol Croes Atti y Fflint ac hefyd Ysgol Croes Atti Glannau Dyfrdwy, ei diben a'i hamcanion, ei chwricwlwm, polisïau ac amryw weithgareddau. Cyflwynaf ef i chwi gan hyderu y bydd yn ganllaw defnyddiol.

Ysgol Gynradd Gymraeg o dan nawdd yr Awdurdod Addysg Lleol yw Ysgol Croes Atti, sydd yn darparu addysg gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd ar gyfer tua 200 o ddisgyblion o 3 hyd 11 oed ar safle y Fflint, a thua 90 o ddisgyblion o 3 hyd 11 oed ar safle Glannau Dyfrdwy.

Yr ydym yn falch ein bod yn trosglwyddo disgyblion 11 oed i Ysgol Maes Garmon, yr ysgol Uwchradd Gymraeg leol yn yr Wyddgrug. Gwelwn hyn fel parhad yn natblygiad ieithyddol ein disgyblion ac mae cydberthynas glos, adeiladol yn bodoli rhwng y ddwy ysgol. Mantais fawr mewn bywyd yw cael rhugldeb dwyieithrwydd ac ymfalchiwn ein bod yn medru darparu addysg naturiol Gymreig o 3oed hyd at 18oed drwy ein perthynas ag Ysgol Maes Garmon.

"Mae Ysgol Maes Garmon yn gartref addysgol i tua 500 o ddisgyblion o bob gallu rhwng 11 a 18 oed. Mewn awyrgylch gartrefol a theuluol, bydd ein disgyblion yn dilyn cwricwlwm eang, cytbwys a diddorol sy'n berthnasol i'w datblygiad academaidd, galwedigaethol a chymdeithasol. Yn ogystal â nifer helaeth o weithgareddau allgyrsiol, mae traddodiad ym Maes Garmon o ofalu'n dda am ein disgyblion. Mae'n disgwyliadau ni yn uchel ac mae'n disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i hynny o ran safon eu gwaith, ymddygiad, hunan-ddisgyblaeth a hunan-hyder.

Ein bwriad yn Ysgol Maes Garmon yw cynnig y gorau i bob disgybl trwy

- ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posib
- sicrhau'r safonau uchaf i bob disgybl
- ddarparu ystod eang o brofiadau
- sicrhau hinsawdd Gymreig a Chymraeg
- baratoi pob unigolyn i wireddu ei botensial/ei photensial
- baratoi pob unigolyn i fod yn aelod llawn o gymdeithas ddwyieithog"

Bronwen Hughes
Pennaeth Ysgol Maes Garmon

Mae perthynas glos hefyd yn bodoli rhyngddom ni a'r Cylchoedd Meithrin lleol, sef yr un ar safle y Fflint a'r un ar safle Glannau Dyfrdwy.

Bydd croeso i chwi sy'n rieni, neu'r rhai ohonoch sy'n ystyried anfon eich plant i Ysgol Croes Atti, ddod i ymweld â ni unrhyw bryd. Cysylltwch a'r swyddfa i wneud trefniadau.

Yn olaf, carwn nodi fod y wybodaeth yn y Llawlyfr hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na bydd newidiadau yn y manylion yn ystod y flwyddyn neu mewn blynyddoedd i ddod.

Mr Gwyn Jones
Pennaeth Ysgol
Medi 2024

YSGOL CROES ATTI FLINT
FFORDD GAER,
FLINT, CH6 5DU
01352 733335

YSGOL CROES ATTI GLANNAU DYFRDWY
STRYD PLYMOUTH,
SHOTTON, CH5 1JD
01244 812826

Trefniant yr ysgol

Tîm Arwain yr Ysgol

Pennaeth	Mr Gwyn Jones
Dirprwy Bennaeth	Mrs Mari Salisbury
Cydlynnydd Addysg Dysgu Ychwanegol	Mrs Elen Peters
Uwch Athro	Mr Ben Elias
Arweinydd cwricwlwm 6-11	Mrs Delyth Rogers
Arweinydd cwricwlwm 3-7	Mrs Lisa Lines
Prif Swyddog Dysgu a Chyflawniad	Mrs Claire Homard Neuadd y Sir Yr Wyddgrug
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Joe Stoneley d/o Ysgol Croes Atti

Dosbarthiadau
Ar gyfer Mis Medi 2024 dyma sut byddwn yn cynnal y dosbarthiadau:

Glannau Dyfrdwy

Mrs Mari Salisbury	Dirprwy Bennaeth/Gofal Safle
Miss Lois Hughes	Athrawes Meithrin/Derbyn
Mrs Gweno Owen Jones	Athrawes Bl1/Bl2
Mrs Rachael Frances Smith	Athrawes Bl3/Bl4
Mrs Delyth Rogers	Athrawes Bl5/Bl6
Mrs Elen Peters	CADY
Mrs Gweno Wilson Jones	Athrawes rhan amser

Staff Cynorthwyol
Miss Bethany Jones
Miss Joleigh Davies
Mrs Nicola Weir
Mrs Beth Williams
Miss Khloe Trevor

Fflint

Miss Faye Guest	Athrawes Meithrin
Mrs Lisa Lines/Mrs Mari Wort	Athrawes Derbyn
Miss Martha Cordiner	Athrawes Bl1/Bl2
Miss Michaela Cooper	Athrawes Bl1/Bl2
Mr Ben Elias	Athro Bl3/Bl4
Miss Moli Jones	Athrawes Bl3/Bl4
Miss Beca Williams	Athro Bl5/Bl6
Mrs Lliwen Ashford	Athrawes Bl5/Bl6

Staff Cynorthwyol

Miss Shelley Beckett
Miss Ceri Owen
Mrs Beth Inskip
Mrs Sian Williams
Mrs Beth Ballantyne
Mrs Ann Reay
Mrs Carly Butler
Miss Ruby Ballantyne
Mrs Emma Hawksworth
Mrs Simone Owen
Miss Louise Messham

Tim Cefnogi

Mrs Emma Lewis	Ysgrifennyddes Glannau Dyfrdwy
Mr Steve Winrow	Gofalwr Glannau Dyfrdwy
Mrs Nicola Weir	Glanhawraig
Ms Kayleigh Jones	Glanhawraig/Goruwchwyliwr Cinio
Mrs Christine Sargeant	Ysgrifenyddes
Mrs Paula Hughes	Cogyddes
Mrs Ceri Lewis	Cymhorthydd Cegin
Ms Louise Messham	Goruwchwyliwr Cinio
Mrs Lisa Morris	Goruwchwyliwr Cinio
Mrs Emma Hawksworth	Goruwchwyliwr Cinio
Mrs Alison Dixon	Goruwchwyliwr Cinio
Mr Geraint Owen	Gofalwr dros dro
Mrs Carol Pickin	Glanhawraig

Amseroedd y Dydd / School Times

Meithrin

8:55-11:30 y bore

Cyfnod Sylfaen	**Adran Iau**
8.55 – 10.30	8:55 – 10.30
10.45 – 11:55	10.45 – 12:05
1:05 - 3.10	1.05 – 3:15

Derbyniadau
Dylai pob rhiant sy'n dymuno gwneud cais am fynediad i'w plentyn neu blant gysylltu a'r ysgol gan wneud cais i siarad gyda'r Pennaeth. Estynnwn groeso cynnes i chi ymweld a'r ysgol mwyn gofyn unrhyw gwestiynau ac i'r ysgol esbonio ymhellach y trefniadau derbyn, ac hefyd i roi cyfle i bawb edrych o gwmpas yr ysgol.

Dechrau ysgol
Cynhelir noson agored yn nhymor yr Haf i rieni'r plant hynny sy'n cael eu derbyn fis Medi i'r Dosbarth Meithrin. Gall blant gychwyn gyda ni yn yr ysgol (rhan amser yn unig) y mis Medi ar ol eu trydydd penblwydd h.y. bydd plant Meithrin Medi 2024 wedi cael eu geni rhwng Medi 1af 2020 ac Awst 31 2021.

Ffurflenni Gwybodaeth
Rhoddir ffurflenni gwybodaeth i bob teulu. Mae'n bwysig iawn bod y ffurflenni yma'n cael eu llenwi, a'u diweddaru, yn arbennig y rhan sy'n rhoi rhif ffôn brys i ni fedru cysylltu â rhieni neu ofalwr mewn argyfwng. Os ydych yn newid cyfeiriad neu eich rhif ffôn gadewch i'r ysgol gael y manylion heb oedi os gwelwch yn dda.

Amcanion a dibenion ysgol

Prif ddiben Ysgol Croes Atti yw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwneir hyn mewn awyrgylch sensitif, gofalus a hapus lle bydd pob plentyn yn cael ei werthfawrogi a lle gall feithrin y galluoedd hynny a fo'n addas i'w ddatblygiad.

Ynghlwm a'r diben cynhwysfawr hon mae gan yr ysgol amcanion penodol:

- Gosod y safonau uchaf posib ac addysg effeithiol o fewn cwricwlwm cytbwys ar gyfer disgyblion o bob gallu a helpu pob plentyn i gyrraedd y targedau a osodir iddynt.

- Meithrin ymdeimlad o berthyn a phopeth sy'n gysylltiedig â hynny:- hunan barch at eraill. Hunan hyder, hunanfynegiant a hunan ddisgyblaeth.

- Meithrin y syniad o gymdeithas syn ffynnu er mwyn pawb – cydweithio, cyd-chwarae, cydymdeimlo, cyd ddeall a chytuno.

- Gofalu am bob disgybl unigol ac ymroi i'w ddatblygiad llawn gan ofalu bod hynny'n cynnwys ei dwf personol, corfforol, cymdeithasol, deallusol a moesol.

- Annog pob plentyn i wneud y gorau o'i gryfderau a'i ddoniau ac i allu ymdopi a'i wendidau.

- Meithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i gyfathrebu, deall, gwneud synnwyr a darllen, a hynny wrth gwmpasu gofynion eang cwricwlwm ysgol a'r byd o'n cwmpas.

- Meithrin cymdeithas sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb.

- Meithrin balchder o berthyn i'r ysgol.

Beth sy'n bwysig i ni?

Dwy ieithrwydd

- y gallu i newid o un iaith i'r llall yn gwbl hyderus
- defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn y gymuned
- defnydd hir oes a phwrpas i'r Gymraeg

Balchder

- "Rwy'n Gymro, rwy'n Gymraes"
- ymfalchiio yn ein diwylliant
- cyfoeth hanes 'Y Cymry'

Ethos teuluol

- gofalu am ein gilydd
- cydberthynas dda ymysg disgyblion a staff
- parch yn treuddio drwy pob agwedd o fywyd yr ysgol

Dysgwyr anibynnol

- "ydw i yn gwybod be i'w wneud pan dydw i ddim yn gwybod be i'w wneud?"
- disgyblion hyderus
- ymchwilio pwrpasol, gwybodus

Y Cwricwlwm, trefniadaeth yr addysgu a'r dulliau addysgu

Mae rhaglenni gwaith yr ysgol yn anelu i gyflawni gofynion dogfen diweddaraf Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru. Gweithredu'r ein rhaglenni gwaith yn bennaf drwy destunau trawsgwricwlaidd a thematig. Fe gynllunnir y rhaglenni gwaith gan yr athrawon fel tîm er mwyn sicrhau cydbwysedd, dilyniant a chynnydd. Mae'n dulliau dysgu yn cynnwys dysgu dosbarth, gwaith grŵp, dysgu tîm a dysgu unigolion.

Byddwn yn anelu at gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys a fydd yn cynnwys gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.

Yn fras y mae hyn yn golygu bod plant yn derbyn addysg sy'n rhoi blaenoriaeth i:-

Iaith a Llythrennedd
Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Mathemateg a Rhifedd
Celfyddydau Mynegiannol
Iechyd a Lles
Y Dyniaethau
Addysg Grefyddol

Mae Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion. Dylai rhieni sydd am eithro eu plant o wersi Addysg Grefyddol neu wasanaethau crefyddol/gweddiiau dyddiol adael i'r ysgol wybod trwy lythyr.

Defnyddio'r Gymraeg
Gan ein bod yn ysgol Gymraeg penodedig, y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith y Cyfnod Sylfaen er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn i'r iaith. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr adran iau a dechreuir cyflwyno'r Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol yn 11oed.

Asesu
Bydd cynnydd y plant yn cael ei asesu'n barhaol gan yr athrawon. Bydd yr asesiadau hyn yn gymorth i athrawon wrth gynllunio rhaglenni i'r plant yn ogystal â bod yn ddefnyddiol wrth adrodd yn ôl i rieni. Pob mis Mai bydd disgyblion o Bl2 hyd at Bl6 yn eistedd asesiadau cenedlaethol Mathemateg a Darllen Cymraeg, gyda disgyblion o Bl3 hyd at Bl6 hefyd yn eistedd profion Darllen Saesneg.

Y Drefn ynglŷn â chwynion / ymgynghori
Bydd y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth yn fodlon trafod gyda rhieni unrhyw gwynion / bwyntiau a allai ddeillio o unrhyw un o bolisïau'r ysgol neu rai sydd yn ymwneud a'r cwricwlwm. Credwn yn gryf bod angen gwrando ar lais y cwsmer er mwyn ini ymateb yn gyflym ac yn adeiladol i unrhyw gwynion, felly da chi, cofiwch gysylltu yn fuan!

O dan adran 23 Deddf Diwygio Addysg 1988 gall rhieni gyflwyno sylwadau ffurfiol ynglŷn â'r cwricwlwm neu unrhyw fater cysylltiedig trwy gysylltu'n ysgrifenedig gyda'r ysgol ac yna gyda'r corff llywodraethol trwy'r Cadeirydd (cyfeiriad yr ysgol) a / neu'r Awdurdod Addysg Leol. Cysylltwch a'r ysgol er mwyn cael manylion ein Polisi Trefn Cwyno

Gwisg Ysgol
Y wisg yw: Trowsus llwyd/du (hir neu byr), crys polo coch, siwmper/cardigan wyrdd, sgert lwyd, ac esgidiau du. Gellir archebu'r dillad o Forresters Sports yn yr Wyddgrug neu arlein ar www.myclothing.com.

Sicrhewch bod enw eich plentyn yn glir ar bob dilledyn os gwelwch yn dda!

Addysg Gorfforol
Disgwylir i'r plant gymryd rhan ym mhob agwedd o Addysg Gorfforol heblaw pan fo rhesymau meddygol dros beidio. Disgwylir i'r plant ddod a dillad newid ac esgidiau pwrpasol ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol - siorts du a chrys t gwyn a phympiau. Mae croeso i'r plant gadw eu gwisg yn yr ysgol rhag ofn iddynt anghofio!

Addysg Cydberthnasau a Rhywioldeb
Mae'r Addysg Cydberthnasau a Rhywioldeb (ACRh) yn faes mandadol o fewn Cwricwlwm i Gymru 2022.

Mae ein rhaglen waith ysgol gyfan yn gynhwysol ac yn seiliedig ar ofynion y Cod ACRh 2021, Llywodraeth Cymru.

Mae ein cwricwlwm yn addas ar gyfer oedrannau penodol ac yn anelu at ofynion y plant. Mae cynhwysiant yn flaenoriaeth sylfaenol ac anelwn at sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n werthfawr, ddiogel ac yn cael ei gefnogi.

Fel ysgol, wrth addysgu cydberthnasau a rhywioldeb, ein nod yw i:

- ddatblygu empathi a charedigrwydd trwy berthnasoedd cadarnhaol gyda ffrindiau a chyfoedion
- hybu ymwybyddiaeth o fod yn ystyriol a pharchus at eraill
- cydnabod pwysigrwydd hunanofal a hylendid
- ddefnyddio y geiriau cywir ar gyfer rhannau'r corff
- ddeall pwysigrwydd gofyn am gymorth
- magu hyder a hunan werth

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
Un o amcanion yr ysgol yw gosod y safonau uchaf posib o addysg effeithiol o fewn cwricwlwm cytbwys ar gyfer disgyblion o bob gallu. Mae'r amcan yma yn berthnasol i'r disgyblion mwyaf galluog a'r disgyblion gydag anawsterau dysgu. Mae gan ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol rywbeth positif i gynnig i'r ysgol a'r gymdeithas ac anogir hwy i wneud hynny. Pan ystyrir hynny'n angenrheidiol, rhoddir cymorth ychwanegol i ddisgyblion, naill ai mewn dosbarth yn cynnwys athro arall, neu trwy gefnogaeth Gymhorthydd Dysgu.

Polisi Cyfle Cyfartal
Mae polisi Cyfle Cyfartal yr ysgol yn nodi ymrwymiad Ysgol Croes Atti i drin pob unigolyn yn gyfartal beth bynnag bo'i gallu, cefndir, hil neu ryw.

Gofal Bugeiliol
Mae gofal bugeiliol y plant yn nwylo'r athrawon dosbarth ac mae pob un aelod o'r staff a'r Pennaeth yn gyfrifol am ddiogelwch plant yn yr ysgol. Swyddog Diogelu'r ysgol yw Mr Gwyn Jones, gyda Mrs Mari Salisbury a Miss Shelley Beckett yn Ddirprwy Swyddogion Diogelu..

Disgyblaeth
Disgwylir safonau uchel o ymddygiad yn Ysgol Croes Atti. Mae polisi Disgyblaeth gan yr ysgol, a set o ganllawiau i rieni sy'n cael eu dosbarthu yn rheolaidd. Gwahoddwn rieni sy'n pryderu am unrhyw agwedd ar ddisgyblaeth i gysylltu â ni yn syth.

Gwaith Cartref
Fe anogir y plant i wneud gwaith cartref. Pwysleisiwn mai partneriaeth sydd yn bwysig i addysg eich plentyn felly ceisiwch greu amser rheolaidd i drafod gwaith gyda eich plentyn. Gosodir y gwaith yn ôl oedran ac anghenion y plentyn.

Ymweliadau
Gofynnir i rieni lenwi'r ffurflen berthnasol pan fydd y plentyn yn dechrau'r ysgol. Mae hyn yn rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar ymweliadau yng nghyffiniau agos yr ysgol i ategu gwaith dosbarth, neu ar ymweliadau rheolaidd e.e. gemau nofio neu gystadleuol. Ar gyfer ymweliadau sy'n mynd ymhellach i ffwrdd e.e. pantomeimiau neu ymweliadau sy'n cynnwys aros dros nos e.e. Glan Llyn, Caerdydd a Llangrannog, gofynnir i rieni lenwi ffurflenni caniatâd ychwanegol.

Codi tâl am weithgareddau'r ysgol
O bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ysgol fe wahoddir rhieni i wneud cyfraniadau i alluogi'r ysgol gynnal rhai gweithgareddau, e.e. gwersi nofio a gymnasteg, ymweliadau addysgol neu gynyrchiadau theatrig yn yr ysgol.

Ymwelwyr i'r ysgol
Yn aml iawn rydym yn gwahodd amrywiaeth o wahanol bobl i'r ysgol i weithio gyda'r plant.

Cinio Ysgol
Mae ein cogyddes yn darparu cinio ysgol blasus gydag amrywiaeth o ddewis i'r plant. Mae bwyd iachus yn cael ei baratoi yn ogystal â bwyd llysieuol.
Mae cinio ar gyfer disgyblion Glannau Dyfrdwy yn cael ei baratoi gan gegin Ysgol Ty Ffynnon ac yn cael ei gludo yn unswydd i'r ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cinio am ddim i bob disgybl o'r dosbarth Derbyn hyd at Bl6.

Gall y plant sy'n dymuno dod â phecyn bwyd eu hunain i'r ysgol, ond gofynnwn yn garedig i chi ystyried bwydlen sydd yn iach, a dim cynwysyddion na photeli gwydr.

Clwb Brecwast / Clwb ar ôl Ysgol
Mae gan yr ysgol glwb brecwast ar y ddwy safle o 8:00-8:30. Mae tal i ddod i'r Clwb Brecwast yma.

Mae Clwb brecwast am ddim yn y Fflint ac yng Nglannau Dyfrdwy, o 8:30-8:50.

Mae clwb ar ôl ysgol ar agor o 3:15 o'r gloch hyd at 5:15 yn ein hysgol yn y Fflint. Cysylltwch â'r ysgol am wybodaeth pellach parthed amseroedd, ffurflenni cofrestru, a chostau ayyb.

Absenoldebau'r plant o'r ysgol
Gall absenoldeb o'r ysgol fod yn awdurdodedig neu'n ddi-awdurdodedig. Fe gofnodir absenoldebau di-awdurdodedig ar adroddiad blynyddol y plentyn. Er mwyn sicrhau fod absenoldebau eich plentyn yn awdurdodedig a wnewch chi nodi'r pwyntiau canlynol.

- Dylid esbonio pob absenoldeb gyda nodyn neu trwy alwad ffôn neu neges bersonol.
- Ni ellir derbyn pob rheswm fel achos teilwng dros fod yn absennol.e.e. mynd i siopa neu barti pen-blwydd, mynd ar wyliau.
- Cofnodir achosion o fod yn hwyr yn barhaus fel absenoldebau diawdurdod.
- Os ydy plentyn yn absennol o ganlyniad i salwch heintus dylid hysbysu'r ysgol mor fuan â phosib.
- Os nad yw eich plentyn yn teimlo'n dda ar fore ysgol ni ddylid ei anfon i'r ysgol.
- Pan fydd cyfradd presenoldeb disgybl yn peri pryder, byddwn yn cyfeirio'r mater at Dîm Swyddogion Lles yr Awdurdod Lleol

Diogelwch

Iechyd
Mae'n hanfodol bwysig fod gwybodaeth a manylion meddygol am blentyn yn hysbys i'r ysgol, a hynny yn ysgrifenedig ar y ffurflenni mynediad ar ddechrau gyrfa'r plentyn yn yr ysgol. Dylid rhoi gwybodaeth trwy lythyr am unrhyw gyflwr sy'n datblygu wedi i'r plentyn gychwyn ysgol.

Trefniadau ar gyfer Iechyd a Diogelwch Staff a Disgyblion
Mr Gwyn Jones yw'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ar draws y ddwy safle.

Moddion
Os yw eich plentyn yn cymryd moddion at unrhyw anhwylder gofynnir i rieni sicrhau fod y moddion yn cael ei gymryd y tu allan i oriau ysgol. Nid yw rhoi moddion i blant yn rhan o ddyletswyddau staff dysgu na staff cynorthwyol yr ysgol. Eithriadau i hyn fydd plant sy'n dioddef o anhwylderau tymor hir fel Asthma neu Ddiabetes. Os yw'n angenrheidiol i blentyn gael 'inhaler' yn yr ysgol yna dylid gadael i'r Pennaeth wybod trwy lythyr.

Tlysau a Gemwaith
Nid ydym yn cymeradwyo gwisgo gemwaith o unrhyw fath. Gwaherddir gwisgo clustdlysau crog gan y gallant fod yn beryglus yn ystod gwersi Addysg Gorfforol ac amser chwarae. Ni fydd yr ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw eitem o'r math yma a gollir yn yr ysgol, na chwaith am niwed corfforol sy'n digwydd i blentyn.

Diogelwch Plant
O safbwynt diogelwch, os yw plentyn yn gorfod gadael yr ysgol yn ystod oriau ysgol am unrhyw reswm, rhaid dweud yn union pa oedolyn fydd yn dod i gasglu'r plentyn. Ni chaniateir i blentyn adael safle'r ysgol heb gwmni oedolyn sy'n hysbys i staff yr ysgol.

Tywydd Garw
Gwnei'r pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Petai angen anfon y plant gartref yn gynnar mewn achosion arbennig fel tywydd garw, byddwn yn cysylltu â chi yn gyntaf. Mewn argyfwng, hysbysir gwefan y Sir petai'r ysgol ar gau.

Gwybodaeth bellach

Cysylltiadau gyda rhieni
Bydd y rhieni yn derbyn gwybodaeth reolaidd am holl weithgareddau'r ysgol trwy lythyrau a ddosberthir i'r plant. Rydym yn barod i drafod gyda rhieni unrhyw fater sy'n ymwneud ag addysg eu plant a hynny drwy wneud apwyntiad i weld athro/athrawes. Estynnir gwahoddiad ffurfiol i rieni ddod i drafod gwaith eu plant tair gwaith y flwyddyn. Rhoddir adroddiad ysgrifenedig ffurfiol ar gynnydd y plant i'r rhieni ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r Ysgol
Mae cnewyllyn gweithgar iawn o rieni yn trefnu rhaglen o weithgareddau sy'n codi arian i alluogi'r ysgol i brynu adnoddau angenrheidiol. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl hyn, ac mae croeso bob amser i rieni newydd ymuno a'r criw sy'n helpu gyda'r gweithgareddau

Nodyn Preifatrwydd Ysgol Croes Atti
Mae'r Ysgol wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd unigolion a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Fel rhan o'n gweithgareddau pob dydd, mae'r Ysgol yn prosesu data personol. Y Pennaeth yw'r rheolwr data, ac yn gyfrifol am eich data personol. Mae'r Ysgol wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch eich data a phrosesu teg ohono.
I'r perwyl hwn, mae'r Ysgol yn cofrestru yn flynyddol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) (Information Commissioner's Office (ICO)) fel 'rheolwr data'.

Mae'r Ysgol wedi penodi 'Pencampwr Data' sef unigolyn o fewn y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ddiogelwch data. Os ydych am ymarfer unrhyw un o'ch hawliau, yn unol â'r Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR), cysylltwch gyda Pencampwr Data'r Ysgol gan ddefnyddio manylion cyswllt arferol yr ysgol.
Diweddarwyd y nodyn preifatrwydd hwn ar y 1af o Fehefin 2023 ac fe fydd yn cael ei ddiweddaru o dro i dro, yn enwedig os oes angen cydymffurfio gydag unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

Fe fydd y fersiwn diweddaraf yn cael ei osod ar wefan yr Ysgol; http://www.ysgolcroesatti.co.uk. Bydd angen ymweld â'r wefan yn rheolaidd i weld y fersiwn diweddaraf.

Mae'n bwysig bod y manylion y mae'r Ysgol yn cadw amdanoch chi, neu eich plentyn, yn gywir ac yn gyfredol. Felly, a wnewch chi sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch data personol yn ystod yr amser rydych yn defnyddio gwasanaethau'r Ysgol neu yn gweithio gyda ni mewn unrhyw ffordd.

Eich hawliau o dan y Gyfraith Diogelu Data

Dyma eich hawliau parthed unrhyw ddata personol a all gael ei gasglu gan yr Ysgol;

1. i gael gwybod (am eu hawliau ac am y ffaith bod eu data yn cael ei brosesu).
2. i gael mynediad at y data personol rydych yn ei gasglu. (Cais Mynediad at Ddata / Subject Access Request).
3. i gywiro'r wybodaeth bersonol rydych yn ei gadw.
4. i ddileu'r wybodaeth bersonol rydych yn ei gadw.
5. i gyfyngu prosesu'r wybodaeth bersonol rydych yn ei gadw.
6. i hygludedd ('portability') data (e.e. i symud eu data o un sefydliad i un arall)
7. i wrthwynebu i chi casglu neu brosesu'r wybodaeth bersonol.
8. mewn perthynas â defnyddio'r data personol i wneud penderfyniadau awtomataidd.

Ar y pwynt lle cesglir eich data, fe fyddwch yn cael gwybod sut y bydd yn cael ei ddefnyddio. Ceir y manylion hyn yn y nodyn preifatrwydd hwn hefyd. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod eich data personol yn gywir ac yn gyfredol. Fe allwch ofyn i ni gywiro neu ddileu unrhyw wybodaeth rydych yn meddwl sy'n anghywir.

Os ydych am ymarfer unrhyw un o'ch hawliau, neu hoffech dderbyn copi o beth neu holl eich data personol a gedwir gan r Ysgol, cysylltwch gyda Pencampwr Data'r Ysgol.

Heb ragfarnu unrhyw atebion gweinyddol neu farnwrol arall a allai fod gennych, mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU os ydych o'r farn ein bod wedi torri'r cyfreithiau preifatrwydd data perthnasol wrth brosesu eich data personol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF www.ico.org.uk
01625 545 745 neu 0303 123 1113

Diogelwch eich data
Yn unol â'r gyfraith Diogelu Data rydym yn cynnal systemau sefydliadol a thechnolegol priodol i'n galluogi ni i ddiogelu'ch data personol, yn cynnwys data sy'n cael ei drosglwyddo, storio neu ei brosesu mewn unrhyw ffordd, o'i ddinistrio, golli neu newid ar ddamwain neu yn anghyfreithlon, ac o unrhyw fynediad neu ddatguddiad anawdurdodedig. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys diogelwch cyfrifiadurol a ffeiliau a chyfleusterau wedi'u diogelu.

Trefn Cychwyn/Diwedd y diwrnod ysgol
Os yw eich plentyn yn mynychu'r Clwb Brecwast wnewch chi sicrhau eu bod yn dod i mewn i'r ysgol cyn i chi eu gadael gan nad ydynt yn goruwchwylio'r buarth cyn 8:45.

Nid oes angen i rieni ddod ar y buarth ar gychwyn y diwrnod ysgol; gall ddisgyblion gerdded ar draws y buarth ar ben eu hunain a dod i mewn i'r ysgol drwy'r drws perthnasol.

Ar ddiwedd y diwrnod ysgol gofynnwn i rieni sefyll ar y buarth a bydd staff yn rhyddhau plant iddynt yn eu tro. Unwaith rydych wedi derbyn eich plentyn gan staff gofynnwn i chi adael y safle a pheidio defnyddio'r offer chwarae ar y buarth. Cyfrifoldeb y rhiant yw gwarchod eu plant unwaith bydd yr ysgol wedi eu trosglwyddo iddynt; nid yw'r ysgol yn gyfrifol am ymddygiad y plant ar ol iddynt gael eu rhyddhau i'r rhieni.

Ethos Ysgol a Chytundeb Ysgol Gartref
Prif ddiben Ysgol Croes Atti yw creu awyrgylch sensitif, gofalus a hapus lle bydd pob plentyn yn cael ei werthfawrogi. Mae Cytundeb Ysgol Cartref gan yr ysgol a disgwylir i bob rhiant a disgybl dderbyn ac arwyddo'r ddogfen hon. Mae'n amlinellu'r hyn rydym fel ysgol yn ymroi tuag ato, ac yn nodi ein disgwyliadau o'r rhieni a'r plant. Nod y cytundeb yw sicrhau fod pob plentyn yn derbyn yr addysg a'r gefnogaeth orau bosibl.

Ysgol Croes Atti
Cytundeb Ysgol - Cartref

Enw'r Disgybl: ……

Cytundeb yr Ysgol:
Bydd yr ysgol yn:

- Gofalu am ddiogelwch a hapusrwydd eich plentyn.
- Annog eich plentyn i wneud ei (g)orau bob amser ac ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.
- Annog eich plentyn i ofalu am ei amgylchedd ac i fod yn ystyriol o eraill.
- Darparu cwricwlwm cytbwys ar gyfer anghenion pob unigolyn.
- Annog eich plentyn i siarad Cymraeg mor aml ag sydd bosib.
- Rhoi gwybodaeth i rieni am faterion cyffredinol yr ysgol.
- Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig blynyddol am bob plentyn a threfnu noson rieni ddwywaith y flwyddyn.
- Rhoi cyfle i chwi gyfrannu i fywyd yr ysgol.

Cytundeb Rhieni:
Ceisiaf / Ceisiwn:

- Sicrhau fod fy/ein plentyn yn mynychu'r ysgol yn gyson, yn brydlon a chanddo/chanddi y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer ei (g)waith ysgol, a byddwn yn rhoi eglurhad i'r ysgol ar unwaith am unrhyw absenoldeb.
- Hysbysu'r ysgol os bydd unrhyw broblem a allai effeithio ar waith ysgol neu ymddygiad ein plentyn/plant.
- Sicrhau bod ein plentyn/plant yn defnyddio'u Cymraeg ar bob cyfle, boed yn yr ysgol neu yn gymdeithasol.
- Ei gefnogi/chefnogi gyda holl agweddau gwaith cartref.
- Mynychu nosweithiau rhieni a phob cyfle i drafod datblygiad ein plentyn/plant.
- Cefnogi polisiau'r ysgol a chanllawiau ymddygiad.
- Ddod i wybod am fywyd ein plentyn / plant yn yr ysgol.

Cytundeb Disgybl:
Ceisiaf:

- Ddod i'r ysgol bob dydd ac yn brydlon.
- Ddod â phopeth fyddaf ei angen at waith y dydd a gofalu amdanynt.
- Wneud fy ngorau gyda'm gwaith ysgol a gwaith cartref.
- Siarad yn Gymraeg mor aml ag sydd bosib er mwyn sicrhau fy mod yn tyfu i fod yn oedolyn gwbl ddwyieithog.
- Helpu eraill a bod yn gwrtais.
- Gofalu am fuddiannau'r ysgol.
- Parchu fy nghyd-ddisgyblion ac oedolion.

Llofnod Athro/athrawes ……

Llofnod Rhiant ……

Llofnod Disgybl: ……

Cychwyn Ysgol
Bydd yr ysgol yn ail-gychwyn ar Ddydd Mercher Medi'r 4ydd.

Dyddiadau'r tymor ar gyfer y flwyddyn academaidd 24-25

Tymor yr Hydref: 4 Medi 2024 - 20 Rhagfyr 2024
- Hanner Tymor: 28 Hydref 2024 - 1 Tachwedd 2024

Tymor y Gwanwyn: 7 Ionawr 2025 - 11 Ebrill 2025
- Hanner Tymor: 24 Chwefror 2025 - 28 Chwefror 2025

Tymor yr Haf: 28 Ebrill 2025 - 17 Gorffenaf 2025
- Hanner Tymor: 26 Mai 2025 - 30 Mai 2025

Dyma ddyddiadau hyfforddiant staff;
Medi 2il
Medi 3ydd
Ionawr 6ed
Mehefin 13eg
Gorffennaf 18fed
Gorffennaf 21ain